



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Institute of Education
Addysg i Gymru Education for Wales

LLAWLYFR MODWL

Cod y Modwl:ECAD6009C

**Teitl y Modwl. Dysgwyr, Ysgolion a Chymunedau:
ble'r ydw i'n addysgu?**

**BA Addysg Gynradd
gyda Statws Athro Cymwysedig**

LEFEL 6

YR ATHROFA

2022-23

1. Manylion Cysylltu

Os bydd angen trafod rhywbeth sy'n ymwneud â'r modwl arnoch, cysylltwch â:

Jessica Roberts- jessica.roberts@uwtsd.ac.uk

2. Ein disgwyliadau

Gobeithiwn y byddwch yn mwynhau'r modwl a'r rhaglen ac rydym yma i'ch helpu. Dylech:

- Wneud defnydd da o gyfleusterau ac adnoddau'r Brifysgol
- Mynychu sesiynau a chymryd rhan ynddynt
- Ymddwyn yn gyfrifol
- Cyflwyno aseiniadau erbyn y dyddiadau terfynol
- Ymroi a chymryd rhan ym mhob sesiwn

Darllenwch Reoliadau'r Brifysgol i Fyfyrwyr

AMCANION

- Datblygu dealltwriaeth ddadansoddol a beirniadol myfyrwyr o'r modd mae ffactorau y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth yn dylanwadu ar y dysgu gan ddisgyblion e.e. polisïau cenedlaethol, cymunedau a theuluoedd, a sut mae'r ddealltwriaeth hon yn ymwneud â materion cyfiawnder cymdeithasol
- Ennyn diddordeb myfyrwyr gydag ymagwedd seiliedig ar dystiolaeth sy'n cysylltu'r gymuned lle mae'r dysgwr yn byw â'r dewisiadau addysgegol a wneir yn y dosbarth er mwyn ysbrydoli dysgwyr a'u teuluoedd

DEILLIANNAU DYSGU

Ar ôl cwblhau'r modwl hwn yn llwyddiannus, dylai'r darpar athro allu dangos y gallu i wneud y canlynol:

- adfyfrio'n feirniadol ar y cyd-destun ysgol gan ystyried ffactorau diwylliannol, ieithyddol a sosio-economaidd a allai ddylanwadu ar gynnydd a chyrhaeddiad disgyblion;
- dangos dealltwriaeth fanwl o rôl broffesiynol gymhleth yr athro mewn perthynas â gweithio'n agos â rhieni, llywodraethwyr, awdurdodau lleol ac asiantaethau sy'n cefnogi ysgolion a'r gymuned ehangach;
- dadansoddi a chyfosod data lleol a chenedlaethol yn fanwl gywir i lywio penderfyniadau, gan ddangos dealltwriaeth gynhwysfawr o linellau atebolrwydd cenedlaethol a lleol

Perthynas â phedwar diben y Cwricwlwm i Gymru 2022:

Datblygu plant a phobl ifanc yn:	Perthynas â'r modwl hwn: Bydd myfyrwyr yn gallu:
Ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes.	Bodloni anghenion amrywiol yr holl ddysgwyr i sicrhau cynnydd disgyblion a chodi dyheadau.
Cyfranwyr mentrus, creadigol, sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith.	Darparu ystod o gyfleoedd dysgu creadigol sy'n hyrwyddo ymreolaeth ac sy'n berthnasol i fywydau'r dysgwyr.
Dinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd.	Mabwysiadu rôl athro proffesiynol wrth ddeall arfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth a herio tybiaethau a chredoau sy'n arwain at stereoteipio.
Unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan gwireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.	Cymhwyso dealltwriaeth o ddamcaniaethau ac ymchwil sy'n effeithio ar les a datblygiad, i arfer personol.

Perthynas â Safonau Proffesiynol Addysgu ac Arweinyddiaeth (SAC):

Safon	Llinyn
Addysgeg: Hyrwyddo	Pedwar diben i ddysgwyr Mae'r darpar athro'n arddangos gwybodaeth am anghenion pob dysgwr, a dealltwriaeth o'r anghenion hynny, wrth gynllunio, paratoi ac addysgu. Hefyd, wrth wneud hyn, mae'n sicrhau mai'r pedwar diben sy'n llywio profiadau dysgu
Addysgeg: Hyrwyddo	Cyd-destunau bywyd go iawn, dilys Mae'r darpar-athro'n arddangos gwybodaeth am ddefnyddio cyd-destunau go iawn, a hynny fel rhan naturiol o'r profiad dysgu. Mae hyn yn ehangu profiad diwylliannol, ieithyddol, crefyddol ac economaidd-gymdeithasol y dysgwr, ac yn rhoi enghreifftiau ymarferol o gysyniadau a haniaethau
Addysgeg: Mireinio	Cynnwys partneriaid mewn dysgu <i>Deall pwysigrwydd cynnwys rhieni/gofalwyr a phartneriaid eraill mewn ffordd gadarnhaol ac achub ar gyfleoedd i arsylwi ar brosesau, a'u gwerthuso.</i>
Arwein-yddiaeth	Cymryd cyfrifoldeb personol Mae'r darpar athro'n arddangos agweddau ac ymddygiadau proffesiynol, gan ddatblygu cydberthnasau cadarnhaol gyda dysgwyr, rhieni/gofalwyr a chydweithwyr, sy'n dangos ymrwymiad personol i'r egwyddorion sylfaenol, sef tegwch a gwneud y mwyaf o botensial pob dysgwr
Arwein-yddiaeth	Arfer cyfrifoldeb corfforaethol: Mae'r darpar athro'n ymwybodol o'i gyfrifoldebau contractiol, bugeiliol, iechyd a diogelwch, cyfreithiol a phroffesiynol, ac mae'n eu deal
Arwein-yddiaeth	Cefnogi rolau arweinyddol ffurfiol: Mae'r athro'n arddangos dealltwriaeth o natur cyfrifoldebau o fewn ac ar draws timau ac o gyfraniadau unigolion tuag at ethos yr ysgol a gwireddu gweledigaeth yr ysgol yn llwyddiannus

4. Cyflwyniad i'r Modwl

Croeso i'n modwl. Prif nod y modwl hwn yw dechrau meithrin ynoch ddealltwriaeth o'r dylanwadau amrywiol niferus, a gwrthwynebol yn aml, sy'n gallu gweithredu ar blant, a chreu gofynion arnoch chi fel athro. Mae'r modwl yn mynd y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth i archwilio'r myrdd o ffactorau sy'n dylanwadu ar ddysgu plant, boed hynny'n gysylltiedig â'r cartrefi maen nhw'n hanu ohonynt neu bolisiau addysgol cyfredol, credoau cyfoes ynglŷn â sut y dylai cwricwlwm edrych neu ble mae plant yn byw. Y mwyaf y byddwch yn deall ac yn ymgysylltu â'r byd y mae eich disgyblion yn byw ynddo, o ran y gymuned leol neu gymuned fyd-eang, y mwyaf abl y byddwch i ddeall y bobl ifanc rydych yn eu haddysgu ac ymateb i'w hanghenion dysgu. Bydd y wybodaeth a'r ymgysylltu hwn yn eich galluogi i wneud penderfyniadau a dewisiadau mwy gwybodus am eich arfer eich hun a sut rydych yn ymateb i'r amgylchedd addysgol sy'n newid yn barhaus. Fodd bynnag, yn greiddiol i'r modwl hwn y mae cred ddiysgog mai addysg yw'r cyfrwng ar gyfer cyfiawnder cymdeithasol.

Yng nghyd-destun addysg, mae cyfiawnder cymdeithasol yn ymwneud â sicrhau addysg deg ac o safon i bob myfyriwr. Byddwn yn edrych ar y ffactorau sy'n gallu cael effaith ffafriol neu niweidiol ar degwch ac ansawdd yr addysg a sut y bydd y rhain yn berthnasol i chi fel athro newydd. Sut maent yn mynd i lywio eich arfer? Sut ydych chi'n mynd i helpu cau'r bwlch rhwng cyrhaeddiad cyfredol plentyn a'i gyrrhaeddiad posibl? Dyma rai o'r cwestiynau y mae'r modwl hwn yn ceisio'u hateb.

Gan edrych tuag at eich dyfodol proffesiynol, byddwn yn rhoi sylw i Gynllunio Gwella Ysgolion. Byddwn hefyd yn ystyried sut y gallwch gyfrannu at gymunedau proffesiynol. Mae hwn yn fodwl dwys, gan fod y sesiynau'n digwydd yn fuan ar ôl ei gilydd. Byddwch yn elwa mwy o'r modwl os byddwch wedi paratoi'n dda cyn dechrau pob dydd, gan gwblhau'r gwaith darllen neu unrhyw dasg arall y gofynnir i chi ei wneud. Byddwch yn gweithio gyda thiwtor ac mewn grwpiau bach ar gyfer y rhan fwyaf o'r sesiynau, a'n nod yw cynnal cynifer o'r sesiynau â phosibl ar ffurf seminar.

Rydym yn croesawu adborth. Mae'n fodwl heriol, ond gobeithiwn y byddwch yn elwa ohono ac yn ei fwynhau.

Jessica, Kelly, Fiona ac Rachel.

Symbolau ar gyfer y cyflwyno	Ystyr
	Dysgu Cydamserol (synchronous learning) – bydd gofyn i chi gymrydrhan mewn gweithgareddau ar-lein ar amser penodol fel rhan o'r ddarpariaeth.
	Dysgu Anghydamserol (asynchronous learning) – ni fydd angen i chigymryd rhan mewn gweithgaredd ar amser penodol, ond bydd gofyn i chi weithio'n annibynnol trwy dasgau hanfodol.
	Tasg Gyfeiriedig – bydd gofyn i chi gymryd rhan yn annibynnol mewntasg a osodwyd fel paratoad ar gyfer sesiwn neu fel dilyniant i sesiwn
	Wyneb-yn-wyneb

5. Cynnwys y Modwl:

Bod yn Ymchwilydd Moesegol	
Bod yn Ymchwilydd Medrus	
Bod yn Ymchwilydd Sgeptigol	
Bod yn rhan o Broffesiwn Ymholgar	
Gweithgaredd pontio (cyfnewid gwybodaeth ddeallusol a thrwy brofiadau)	

Ymagwedd	Gwybodaeth, sgiliau, dealltwriaethau ac ymddygiadau
<i>Bod yn sgeptigol</i>	Deall tystiolaeth empirig mewn maes dadleuol: Bod yn ymwybodol o'r gywyr gwleidyddol, economaidd a chymdeithasol oblaidd 'tystiolaeth', a goblygiadau 'tystiolaeth'.
<i>Bod yn foesegol</i>	Deall sylfaen foesegol ymholi mewn gweithle cymhleth: - Gwybod egwyddorion moesegol ymchwil; - Deall safleoldeb (<i>positionality</i>) mewn ymchwil; - Deall eich credoau a'ch tybiaethau eich hun am y byd.
<i>Bod yn ymchwilydd medrus</i>	Deall egwyddorion ymchwil y gwyddorau cymdeithasol, a gwybod y gwahanol fathau oddulliau a ddefnyddir a pham: - Deall dulliau ansoddol a natur/statws canfyddiadau; - Deall dulliau meintiol a natur/statws canfyddiadau; - Deall dyluniadau pragmatig. Deall sut i adeiladu dadl ar sail tystiolaeth a gwarant mewn ymchwil addysgol: - Defnyddio sgiliau darllen beirniadol; - Bod yn 'sgeptigol' eich agwedd at 'dystiolaeth'. Gwerthfawrogi'n feirniadol faint o gefnogaeth a all fod ar gael neu beidio ar gyfertheoriau poblogaidd a dylanwadol mewn meysydd megis datblygiad plant a naturdysgu: - Bod yn 'sgeptigol' eich agwedd at 'arloesi' (polisi ac ymarfer) neu'r 'peth mawrnesaf'. Deall sut i ddefnyddio tystiolaeth empirig yn eich ystafelloedd dosbarth a gwerthuso eiheffeithiolrwydd: - Bod yn glir am yr hyn a fwriedir a pham; - Diffinio'r paramedrau ar gyfer gwerthuso effeithiolrwydd.
<i>Bod yn rhan o broffesiwn ymholgar</i>	Cyfrannu i gymuned o ymarferwyr ymholgar: - Gwybod a ddylid, pryd a sut i rannu deilliannau ymholiad dosbarth; - Cyfrannu'n rhagweithiol i amrywiaeth o gynulleidfaoedd; - Mynd ati i ymwneud ag ymholi a chanfyddiadau pobl eraill.

TROSOLWG O'R SESIYNAU

D.S. Gall trefn y sesiynau hyn a'r dull cyflwyno newid yn ôl yr amgylchiadau, ond fe'ch hysbysir o unrhyw newidiadau ymlaen llaw trwy Moodle.

Session	Date	Content
1 Campws 	6/12/22 9am – 11am	Cyflwyniad i'r modwl a throsolwg o'r aseiniad Cymuned y Dysgwr
	Darllen sesiwn	https://www.thriveapproach.com/case-studies/herbert-thompson-primary-school/ Estyn (2012) Arfer effeithiol wrth fynd i'r afal a thlodi ac anfantais mewn ysgolion
	Darllen Ehangach	Llywodraeth Cymru (2016) Wynebu's her gyda'n gilydd (YGaTh): Pecyn cymorth ymgusylltu a'r gymuned a theuluoedd i ysgolion yng Nghymru. Ar gael yn https://www.wakelet.com code 45d50dc Llywodraeth Cymru (2016) Thema 5: Datblygu partneriaethau cymunedol a gweithio amlasiantaethol. Adnoddau 1-2. Ar gael yn https://www.wakelet.com code 45d50dc
2 Campws 	6/12/22 11am – 1pm	Sut mae'r 4 Diben yn cysylltu â'r gymuned?
	Darllen sesiwn	Adnoddau Nearpod© Estyn (2020) A yw eich ysgol yn un sy'n rhoi teuluoedd a chymunedau wrth wraidd ei gwaith? Estyn (2019) Cysylltu'r cenedlaethau Estyn (2018) Ehangu medrau entrepreneuriaidd disgyblion a gwella safonau Estyn (2019) Cefnogi ymgysylltiad rhieni trwy weithdai Goodall, J. & Montgomery, C. (2013) Parental involvement to parental engagement: a continuum, Educational Review, 66:4, 399-410, Ar gael yn https://learningfoundation.org.uk/wp-content/uploads/2016/03/Parental-involvement-to-parental-engagement-a-continuum.pdf
3 + 4 Campws 	13/12/22 9am – 1pm	Cyflwyniad i gynllunio'n strategol: Cynllun Datblygu'r Ysgol (CDY)
	Darllen sesiwn	Llywodraeth Cymru, 2014, Cynlluniau datblygu ysgolion https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/cynlluniau-datblygu-ysgolion.pdf

PDP 		Beth i chwilio amdano ar leoliad Llwythwch i lawr gopi o'r llyfrynau 'Beth i chwilio amdano ar leoliad'. Gallwch ddod o hyd i hwn ar Moodle.
23/3/23		PONTIO CWRDD
29/3/23		PONTIO RHANNU
5 Campws 	25/4/23 9am – 11am	Polisiau addysgol presennol yng Nghymru
	Darllen sesiwn	Polisiau Llywodraeth Cymru https://wakelet.com/i/invite?code=2339d95 (cym)
6 Campws 	25/4/23 11am – 1pm	Cyfiawnder Cymdeithasol a Persbectif Cymdeithasegol
	Tasg Gyfeiriol	Darllenwch y cyflwyniad a'r tudalennau 7 -15 (pdf 16-24) of Smith, E, (2012) An introduction to Education & Social Justice in Smith, E.,(2012). Key issues in education and social justice. London; New Delhi; Singapore SAGE. Key issues in education and social Justice.
	Darllen sesiwn / Darlleniad au ehangach	Ar gael yn https://padlet.com/teaching_mrstacey/ecad7003s3
7 Campws 	27/4/23 9am – 11am	Persbectif rhyngwladol
	Darllen Ehangach	OECD (2017) The Welsh Education Reform Journey, https://www.oecd.org/education/the-welsh-education-reform-journey.pdf
8 Campws 	27/4/23 2pm – 4pm	Cenedl Ddwyieithog
	Adnoddau sesiwn	Cymraeg 2050: A Million Welsh Speakers https://llyw.cymru/cymraeg-2050-strategaeth-y-gymraeg Cymraeg 2050: Rhaglen waith 2017-21 https://llyw.cymru/cymraeg-2050-ein-cynllun-ar-gyfer-2017-i-21 The Bell Foundation https://www.bell-foundation.org.uk/eal-programme/

		Adroddiad gwerthuso ar ddulliau meithrin gallu I gefnogi cyflawni Saesneg fel i iaith ychwanegol yng Nghymru https://llyw.cymru/saesneg-fel-iaith-ychwanegol-adroddiad StatsCymru (iaith gyntaf disgyblion) https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Schools-Census/Pupil-Level-Annual-School-Census/Ethnicity-National-Identity-and-Language/firstlanguageofpupilsaged5andover-by-language-year StatsCymru (dysgwyr EAL) https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Schools-Census/Pupil-Level-Annual-School-Census/Ethnicity-National-Identity-and-Language/pupilsacquiringenglishasadditionallanguage-by-localauthorityregion-stagedevelopment
9 Campws 	28/4/23 9am – 11am	DARPL – Dysgu Proffesiynol Amrywiaeth a Gwrth - hiliol
10 Campws 	28/4/23 11am – 1pm	DARPL – Dysgu Proffesiynol Amrywiaeth a Gwrth - hiliol
11 Campws 	2/5/23 9am – 11pm	Cyfiawnder Cymdeithasol wedi'i Ddiwygio
12 Campws 	2/5/23 11am – 1pm	Dod â'r cyfan at ei gilydd
13 Campws 	2/5/23 2pm – 4pm	Saesneg/Cymraeg fel Iaith Ychwanegol
12 Arlein 	4/5/22 9am – 11pm	Cymorth gyda'r aseiniada
13 Arlein	4/5/22 11am – 1pm	Sesiwn galw-heibio ynglŷn â'r aseiniadau

		
---	--	--

6. Tasg asesu a chanllawiau

COD Y MODWL	TEITL Y MODWL	DULL ASESU
ECAD6009C	Dysgwyr, ysgolion a chymunedau: ble'r ydw i'n addysgu?	Deall sut mae'r dysgwr, yr ysgol a'r gymuned leol yn gweithio gyda'i gilydd i gyflwyno un o bedwar diben y cwricwlwm newydd: cyflwyniad fideo sy'n archwilio'r broses hon yn feirniadol. Fideo unigol (10 munud) (50%)
ECAD6009C	Dysgwyr, ysgolion a chymunedau: ble'r ydw i'n addysgu?	Sut mae ysgol yn datblygu un agwedd ar ei Chynllun Datblygu Ysgol: adroddiad sy'n adfyfyrio'n feirniadol ar y camau gweithredu, yr effaith a'r sylfaen dystiolaeth. Adroddiad Ysgrifenedig (2500 o eiriau) (50%)

Dyddiad Cyflwyno: Mai 15^{fed} 2023

7. Rhestr ddarllen

Cyfeiriwch at y ddolen ar Moodle a llawlyfr modwl.